# Templed Ariannol

**Defnyddiwch y templed hwn os nad yw eich dogfen cyfrifon yn dangos dadansoddiad o gronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig* neu asedau cyfredol a rhwymedigaethau cyfredol (gweler y diffiniadau isod). Bydd angen i chi atodi'r ddogfen hon yn ogystal â'ch cyfrifon, pan fyddwch yn cyflwyno eich ffurflen gais.**

Rydym yn cydnabod nad yw rhai sefydliadau yn ofynnol i wneud hyn gan eu rheoleiddiwr. Fodd bynnag, rydym yn gofyn am y wybodaeth hon i'n helpu i ddeall sefyllfa ariannol eich sefydliad.

Os yw eich sefydliad yn y 12-18 mis cyntaf o weithredu, rhaid i chi ddarparu rhagolwg ariannol. Dylai rhagolwg ariannol o leiaf gynnwys yr incwm a'r gwariant a ragwelir ynghyd â rhywfaint o gynllunio / eglurder ynghylch sut y byddwch chi'n codi arian. **Peidiwch â defnyddio'r templed ariannol i ddarparu rhagolwg ariannol.**

| **Enw'r Mudiad** | |
|---|---|

| **Dyddiadau'r Cyfnod Cyfrifyddu** | **Dyddiad Dechrau (DD/MM/BBBB)** | **Dyddiad Gorffen (DD/MM/BBBB)** |
|---|---|---|
| | | |

Y cyfnod cyfrifyddu yw dyddiad dechrau a gorffen y cyfnod yr ydych yn darparu manylion incwm a gwariant ar ei gyfer. Dylai hwn fod yn gyfnod o 12 mis.

## Adran 1 – Gwybodaeth Cyfrifon

I lenwi'r ddogfen hon, bydd angen i chi gael cofnod o'ch incwm, eich gwariant a'ch cronfeydd wrth gefn, yn ogystal â dadansoddiad o unrhyw asedau a rhwymedigaethau cyfredol.

### Incwm, Gwariant a Chronfeydd Wrth Gefn

| | **Cronfeydd Cyfyngedig * (£)** | **Cronfeydd Anghyfyngedig **( £)** | **Cyfanswm (£)** |
|---|---|---|---|
| Incwm | | | |
| Gwariant | | | |
| Cronfeydd Wrth Gefn *** | | | |

*Dim ond at ddiben penodol y mae modd defnyddio Cronfeydd Cyfyngedig. Er enghraifft: mae ond yn bosibl gwario grant gan gyllidwr i gyflawni prosiect ar y prosiect hwnnw'n unig.

** Mae cronfeydd anghyfyngedig yn grantiau neu'n rhoddion y gellir eu defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n briodol i gyflawni nodau elusennol y mudiad. Mae rhoddion gan aelodau o'ch cymuned leol yn enghraifft o roddion anghyfyngedig.

*** Mae cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig yn rhan o gronfeydd elusen sydd ar gael yn ddirwystr i'w gwario ar unrhyw un o ddibenion yr elusen.

BBC CHILDREN IN NEED

*** Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig yn rhan o gronfeydd elusen na ellir ond eu gwario ar waith neu brosiectau penodol.

**Asedau a Rhwymedigaethau Cyfredol**

Mae ased cyfredol yn adnodd sydd a gwerth iddo ac sy'n eiddo i fudiad. Maen nhw'n eiddo neu'n eitemau y mae modd eu gwerthu neu eu cyfnewid am arian parod. Enghreifftiau o asedau cyfredol:

- Arian parod
- Buddsoddiadau
- Offer neu beiriannau swyddfa
- Eiddo
- Cerbydau sy'n eiddo i'r cwmni

Mae rhwymedigaeth gyfredol yn rhywbeth sy'n ddyledus gan un sefydliad i sefydliad arall. Enghreifftiau o rwymedigaethau cyfredol:

- Benthyciadau banc neu forgeisi
- Arian sy'n ddyledus i gyflenwyr
- Cyflogau staff

Peidiwch â chynnwys Rhwymedigaethau pensiwn yn yr adran hon.

| Cyfanswm Asedau Cyfredol (£) | Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol (£) |
|---|---|
| | |

## Adran 2 – Datganiad

- Mae'r holl fanylion a roddir yn y templed ariannol hwn yn grynodeb gwir a chyflawn o gyllid y sefydliad yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

Llofnod: ____________________________________ Dyddiad: ________________________________________

Enw (prif lythrennau): ________________________ Rôl:______________________________________________

Dylech nawr gadw'r ffurflen hon wedi'i llenwi a'i hatodi i'ch ffurflen gais lawn drwy eich cyfrif ar-lein.

Mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein yma: https://bbccin.fluxx.io/

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau gyda hyn, anfonwch e-bost atom yn Pudseygrants@bbc.co.uk

Mae grantiau BBC Plant mewn Angen yn amodol ar delerau ac amodau grant BBC Plant mewn Angen y gellir eu gweld yn https://www.bbcchildreninneed.co.uk/grants/i-have-a-grant/